CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Clerc/Clerk: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Cofnodion cyfarfod Nos Wener, 1af Chwefror 2019 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Cynghorwyr: Mrs. Eira Lewis (C), Mrs Becky Mollinson White, Mrs Anne Williams, Mr John W Jones, Mr Geraint Jones, Mr Huw Lloyd, Mr Brinley Owen a Mr David Williams.

Cyhoedd: Irene a John Ulver a Paul Sawyer

Clerc: Gaenor Richards

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mrs Eira Lewis.
2. **YMDDIHEURIADAU:** Mrs Rhiannon Jones

Ychwanegol i'r Agenda
Roedd 3 aelod o'r cyhoedd yn bresennol i ddatgan eu pryder am y cais cynllunio sydd wedi mynd i mewn i'r Sir ynglŷn a llwybr troed a fydd yn mynd trwy eu tir. Fe eglurwyd mai ymgyrch gan Becky Mollinson White, ac ddim yn ymwneud a'r Cyngor eu hun. Ymgyrch yw hwn ar ran trigolion Rhos Helyg i brofi bod llwybr yn bodoli cyn i'r tai eu codi, ac os bydd y cais yn llwyddiannus y byddant yn rhoi ail gais am wyriad i'r llwybr i fynd o flaen y tai.

3. **COFNODION CYFARFOD IONAWR 4YDD, 2019**
   Fe'i cafwyd yn gywir, a'u harwyddo gan Eira Lewis.
4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
   - **Torri gwair fynwent** – Russell Helsby yn fodlon torri y gwair a cadw y llwybrau yn lan eto eleni am £1500. Cysylltu a'r eglwys i gytuno ar y swm taladwy ganddynt.
   - **Prosiect Celf Ysgol Bro Dyfrdwy** – aeth y clerc i gyfarfod a'r ysgol yn ddiweddar i drafod prosiect sydd ganddynt ar y gweill. Eisiau cydweithio gyda Cynwyd a Llandrillo. Angen hurio y Ganolfan i godi arian – Cyngor yn fodlon talu am y Ganolfan.
   - **Cenotaph** – yn dal i ddisgwyl ateb cyn symud ymlaen.
   - **Cyflymder Band Byd eang** – y clerc wedi cysylltu â Openreach, ond heb gael ymateb. Trio BT.
   - **Llwybr i'r Fynwent** – Mae Dion wedi cwblhau y gwaith, ac am ddim cost i'r cyngor cymuned. Clerc i yrru llythyr ato i ddiolch.
5. **GOHEBIAETH**
   - **Llwybyr Rhos Helyg** – wedi derbyn llythyr gan Richard yn gofyn am y llythyr yn Saesneg. Clerc wedi gyrru 7/1
   - **Ebost gan Streetworks** – bydd ffordd o Rhosucha hyd at Llechwedd Cilan wedi ei gau o 27 – 31 Mawrth i'w ail wynebu'r ffordd
   - .**Westcotec –** y clerc wedi derbyn prisiau am arwyddion cyflymder electroneg i'r pentref (batri) – y clerc i ofyn am brisiau rhai solar.

6. **MATERION CYNLLUNIO**
   -

7. **MATERION ARIANNOL**
   - Gyllideb wedi'w yrru i Sir Ddinbych 7/1
   - Wedi gyrru bil i Peredur Roberts am £150 – claddu R J Roberts. Hefyd am £50 am gladdu llwch Mrs Vera Suttle. Penderfynwyd nad oedd angen codi tâl am dabled – i'w osod fel y bo torrwr gwair yn medru mynd drosto.
   - Wedi derbyn siec gan P Roberts am £450
   - Derbyn bil gan D Lewis am y torch pabi coch - £17.00
   - £2,000 wedi ei dalu yn syth i gyfrif y Cyngor Cymuned gan Rhys Jones, Syrior, am y melinau gwynt.
   - Wedi setio Debyd Uniongyrchol i dalu am gofrestru gyda ICO yn flynyddol - £35.00

8. **GDPR**
   - .Wedi Cofrestru cyda ICO – rhif cofrestru – A8430487

9. **MATERION O'R GYMUNED**
   - **Carreg fedd gyda cerbiau** – Peredur dal heb tynnu'r cerbiau, gan i'r teulu ddweud wrtho am beidio a'i gyffwrdd ar hyn o bryd.
   - **Gyrru drwy'r pentref** – Y cadeirydd wedi cysylltu gyda'r Heddlu a 'Rural Crime' yn datgan pryder y trigolion am y cerbydau 4x4 sy'n trafeilio trwy'r pentre ac ar hyd y mynydd.
   - **Yr Hen Ysgol** – fe gyflwynwyd y ddau cynllun a grëwyd gan y cwmni Arcadis ar syniadau ar gyfer adeilad yr hen ysgol.
   - **Grid Gwartheg ger Tŷ'n Fach** – mae'r giât yn annodd i'w agor.
   - **Pont dros y Ddyfrdwy ger Cilan** – ers ei ail neud, mae crwb yn y ffordd sy'n beryg i yrwyr.
   - **Cyngor Powys** wedi derbyn cynlluniau gan '**Trail Riders Association'** i agor llwybyr 4x4 dros y Berwyn yma i Llandrillo. Edrych allan am y ceisiadau yma.

Arwyddwyd: …… Dyddiad : ……